almanac sector gwirfoddol

Sir Benfro 2003

ffeithiau a ffigurau allweddol

Cymdeithas Gwasanaethau
Gwirfoddol Sir Benfro (PAVS)

36/38 Stryd Fawr
Hwlffordd
Sir Benfro
SA61 2DA

Ffôn: 01437 769422
Ffacs: 01437 769431
E-mail: enquiries@pavs.org.uk
Gwefan: www.pavs.org.uk

EUROPEAN UNION
European Social Fund
YR UNDEB EWROPEAIDD
Cronfa Gymdeithasol Ewrop

Y sector gwirfoddol yn Sir Benfro

Mae cyhoeddi'r Almanac y Sector Gwirfoddol cyntaf hwn yn gam pwysig o ran codi ymwybyddiaeth ynglŷn â'r sector gwirfoddol, ei derfynau a'i gyfraniad i fywyd y sir. Gall y cyfryw wybodaeth gynnig cyfarwyddyd i lunwyr polisïau, cymorth i gynllunio, cynorthwyo i fonitro'r sector a rhoi'r sector mewn perspectif yng nghyd-destun Sir Benfro, Cymru a'r DG.

Mae'r sector yn datblygu trwy'r amser, fodd bynnag, ac felly bwriedir adolygu a diweddaru'r Almanac yn flynyddol fel modd i gadw golwg ar y newidiadau hyn. Bydd fersiynau'r dyfodol yn elwa ar gronfa ddata newydd sy'n cael ei datblygu, gyda chydweithrediad y sector, a fydd yn gymorth inni adeiladu darlun mwyfwy soffistigedig o'r cyfraniad a wneir gan y sector gwirfoddol i les cymdeithasol ac economaidd Sir Benfro. Byddai Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (PAVS) yn croesawu atborth adeiladol ynglyn â'r fersiwn gyntaf hon, ac mae'n awyddus iawn i glywed am yr hyn yr hoffech ei weld yn fersiynau'r dyfodol.

Cynnal ymchwil ar y sector

Mae gan PAVS wybodaeth, sy'n cael ei diweddaru yn gyson, ynglŷn â grwpiau gwirfoddol a chymunedol sy'n gweithredu o fewn y sir. Mae enwau 613 o fudiadau gwirfoddol ar gronfa ddata PAVS ar hyn o bryd, a dyna fu'r man cychwyn o ran y wybodaeth a gyhoeddir am y tro cyntaf ar ffurf almanac.

Yn ystod chwarter cyntaf 2003 cynhaliodd y Gymdeithas ymchwil er mwyn dechrau adeiladu darlun mwy cyflawn o gyfansoddiad a chyfraniad y sector. Cysylltwyd â phob mudiad sydd â'i enw ar y brif gronfa ddata trwy lythyr, gan ofyn iddo ymateb gan lenwi ffurflen a luniwyd i gasglu gwybodaeth ychwanegol nad oedd wedi ei chynnwys ar y gronfa ddata tan hynny. Dychwelwyd cant, wyth deg a chwech o ffurflenni wedi eu llenwi, a defnyddiwyd y wybodaeth hon fel sampl cynyrchioliadol er mwyn cywain ffeithiau a ffigurau allweddol ynglŷn â chyfansoddiad a chyfraniad potensial y sector yn Sir Benfro.

Yn ogystal, cynhaliwyd dau ddarn arall o ymchwil a ffocysai ar wirfoddoli ar ddiwedd haf 2003. Caiff dadansoddiad o ganlyniadau'r ymchwil hwn ei ddefnyddio mewn argraffiadau diweddarach o'r almanac llawn, y gellir cael y fersiwn lawn bresennol ohono o wefan PAVS, sef www.pavs.org.uk neu trwy wneud cais i swyddfa PAVS.

Swyddi a gwirfoddoli

Amcangyfrifir bod y sector yn cyflogi 1549 o bobl yn Sir Benfro, 45% o'r rhain mewn swyddi amser llawn. Mae dros 5,600 o bobl yn ymddiriedolwyr i fudiadau gwirfoddol a 13,743 arall yn gwirfoddoli, gan gyflawni amrywiaeth eang o ddyletswyddau mewn amryfal leoliadau.

Mae gwirfoddolwyr ac ymddiriedolwyr yn cyfrannu tair awr yr wythnos yr un ar gyfartaledd, a byddai'r oriau hyn pe caent eu prisio yn ôl y graddfeydd cenedlaethol presennol, sef £13.85 am amser rheolwr a £7.75 am amser gweithiwr prosiect, yn cyfateb i dros £28 miliwn y flwyddyn neu ymhell dros £0.5 miliwn bob wythnos.

Nid yw'r ffigurau hyn yn cymryd 'gwirfoddoli anffurfiol' i ystyriaeth (cynorthwyo cymdogion a chymunedau y tu allan i fudiadau ffurfiol), traddodiad sy'n arbennig o gryf yn y cymunedau Cymraeg yng ngogledd y sir, na chyfraniad enfawr y rhai sy'n cyfrannu fel cynhalwyr anffurfiol. Mae'n anodd pennu gwerth hyn, er iddi gael ei hamcangyfrif bod rhwng dwywaith a theirgwaith yn rhagor o wirfoddoli anffurfiol yn digwydd na gwirfoddoli ffurfiol. Awgryma hyn werth rhywle o gwmpas £84 miliwn y flwyddyn am gyfraniad yr holl wirfoddoli a wneir gan wirfoddolwyr yn Sir Benfro at ei gilydd.

Denwyd £2,066,748 o arian Amcan Un, heblaw am arian cyfatebol, i'r sir gan fudiadau gwirfoddol a chymunedol oddi ar cychwyn y rhaglen, sy'n golygu bod gwerth cyfanswm y prosiectau dros £4 miliwn.

Darparwyd £2.9 miliwn o nawdd ar gyfer y sector gan Gyngor Sir Penfro yn ystod y flwyddyn a ddiweddai ym mis Mawrth 2003, sef dros 5 gwaith gwerth grantiau'r Gronfa Gymunedol ar gyfer y sector yn ystod yr un cyfnod.

Caiff 1549 o bobl eu cyflogi yn y sector yn Sir Benfro, 45% ohonynt mewn swyddi amser llawn. Mae dros 5,600 yn gweithio fel ymddiriedolwyr i grwpiau gwirfoddol ac o leiaf 3,743 arall yn gwirfoddoli.

Proffil cryno o'r sector yn Sir Benfro

- Mudiadau lleol, a'u cartref yn Sir Benfro ac sy'n gweithredu o'i mewn, yw 81% ohonynt
- Mudiadau rhanbarthol sy'n gweithredu yng Ngorllewin Cymru yn bennaf yw 12% ohonynt
- Mudiadau cenedlaethol sy'n cynnwys Cymru gyfan yw 7% ohonynt
- Mae 58% ohonynt yn elusennau cofrestredig
- Mae 16% yn gwmnïau cyfyngedig trwy warant

Mathau o fudiadau

- Mae 33% yn ymwneud â chwaraeon neu adloniant
- Mae 12% yn cynnig gwasanaethau cyngor a gwybodaeth
- Mae 11% yn ymwneud â rheoli adeiladau cymunedol
- Mae 10% yn ymwneud ag anabledd
- Mae 8% yn ymwneud â threftadaeth a/neu'r celfyddydau
- Mae 7% yn gweithio gyda phobl ifainc
- Mae gan 7% ddiddordeb yn yr amgylchedd, lles anifeiliaid neu dai
- 12% arall

Incwm

- Mae incwm 17% o'r mudiadau dan £1000
- ac incwm 33% ohonynt rhwng £1,000 a £10,000,
- incwm 16% ohonynt rhwng £10,000 a £100,000,
- incwm 11% ohonynt rhwng £100,000 a £250,000
- ac incwm 5% ohonynt dros £250,000
- 18% na wyddys

Byddai cymhwyso'r ffigurau hyn i'r sector at ei gilydd yn Sir Benfro yn awgrymu incwm blynyddol o dros £27 miliwn neu £236.57 y pen o boblogaeth y sir yn flynyddol.

Y persbectif cenedlaethol

Gall y sector gwirfoddol fanteisio ar egni mwy o bobl nag unrhyw ran arall o gymdeithas yng Nghymru. Mae'n cynnwys amrywiaeth eang o bobl, mudiadau a chymunedau sy'n gweithredu yn annibynnol ar y wladwriaeth, er lles y cyhoedd, yn hytrach nag er mantais ariannol i unigolion. Mae'n cynnwys mudiadau gwirfoddol, grwpiau cymunedol, gwirfoddolwyr, grwpiau hunangymorth, prosiectau a mentrau cydweithredol cymunedol, a mudiadau ffydd. Mae'n weithredol bob munud o bob dydd ym mhob cymuned yng Nghymru, a gwna gyfraniad sylweddol i bob agwedd ar fywyd economaidd, diwylliannol, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru. Mae'r sector yn cynnwys dros 30,000 o fudiadau, bron 23,000 o weithwyr a 1.12m o wirfoddolwyr. Mae ganddo incwm blynyddol o £630m ac mae ei incwm ynghyd â gwerth yr amser gwirfoddoli yn cyfateb i 8.7% o'r Cynnyrch Mewnwladol Crynswth yng Nghymru. O gyfanswm y mudiadau gwirfoddol yng Nghymru, mae 773 ohonynt yn rhai cenedlaethol a 1266 arall yn rhai rhanbarthol, gan ddarparu gwasanaethau yn ogystal â phrofiad arbenigol y gall cymunedau ledled Sir Benfro elwa ohonynt.